# #30 Ymgysylltu Adolygiad Blynyddol

(Gorffennaf & Awst 2023)

*Os yw'n bwysig i chi, yna mae'n bwysig i ni*

# Pam cynnal yr adolygiad hwn?

## Pwrpas y thema:

Ystyried sut y gallwn barhau i ehangu a gwella ein darpariaeth **Ymgysylltu**; gwirio pa mor dda y mae **Ymgysylltu i Wella** yn gweithio; darganfod beth yr ydych chi, ein cwsmeriaid, am ein gweld yn ei wella yn 2024.

## Pryd y gwnaethom gynnal yr arolwg hwn?

Trwy gydol Gorffennaf ac Awst 2024


### Diolch am eich cefnogaeth!

Cawsom wybodaeth gan **236** o'n cwsmeriaid.


# Dyma ddywedoch chi. . .

## Dyma'r ymatebion a gafodd ni:

**1.** Atebwyd gan: 235 Nid atebwyd gan: 1




**2.** Atebwyd gan: 208 Nid atebwyd gan: 28





O'r 20% a ddewisodd 'Arall', dywedodd y rhan fwyaf o bobl mai'r angen i roi gofal neu gael gofal oedd eu prif reswm dros beidio â chymryd rhan. Dywedodd pobl mai'r rhesymau wedyn oedd salwch, problemau o ran cludiant, a'r ffaith eu bod yn gwsmer newydd.


**3.** Atebwyd gan: 225 Nid atebwyd gan: 11



**4.** Atebwyd gan: 231 Nid atebwyd gan: 5



**5.** Atebwyd gan: 206 Nid atebwyd gan: 30



# Dyma rai o sylwadau ein cwsmeriaid ynghylch Cwestiwn 5:

***Mae ateb yn gwneud ei orau glas drosoch, ond a oes unrhyw beth yr hoffech i ni weithio arno fel y gallwn wella'n fwy fyth?***

"Ymateb yn gynt i geisiadau i rywun alw; neu o leiaf ffonio i ddweud eich bod wedi cael y cais ac i roi amserlen"

"Ymateb yn syth i geisiadau am waith atgyweirio, er mwyn dweud bod y cais wedi'ch cyrraedd, a rhoi rhif gwaith iddo yn y fan a'r lle"

"Rwy'n gweithio yn llawn-amser, mae'n wyliau haf ac mae pwysau arnaf i neilltuo amser/gwyliau blynyddol i wneud gweithgareddau gyda fy mhlant, ac rydych chi'n ceisio trefnu bod y boeler yn cael ei archwilio; mae'n siŵr y gallwn fod gartref erbyn 4:30pm heb gymryd gwyliau, ond rydych yn gofyn gormod wrth ddisgwyl i fi fod gartref yn ystod bore neu brynhawn cyfan. Ydych chi'n meddwl nad oes gan unrhyw un o'ch tenantiaid swyddi? Yn bersonol, dydw i ddim yn credu bod angen i'r boeler gael gwasanaeth/archwiliad — dim ond am hanner blwyddyn y mae wedi bod ymlaen ers yr un diwethaf. Rwy'n deall eich bod am wneud y gwaith, ond i rieni sengl sy'n gweithio yn llawn-amser byddai apwyntiadau hwyrach gan gytuno ar amser penodol yn well."

"Diogelwch gwell"

"Gwnaethom gais i gael rhagor o gasgenni dŵr ar ein hystâd, ond cafodd y cais ei wrthod rhag ofn y byddai'r tenantiaid yn yfed y dŵr neu'n ymolchi ynddo ac y gallent gael legionella. Wir? Mae modd lladd y bacteria — mae'r cemegolyn ar gael ar y rhyngrwyd ac roeddem yn fodlon talu amdano. Mae gennym gasgenni dŵr ar yr ystâd yn barod, felly allwn ni ddim deall pa ddrwg sydd mewn cael rhagor. Yr unig beth y byddant yn ei wneud yw arbed dŵr"

"Gwnaethom symud i un o'ch cartrefi chi o gartref a oedd yn eiddo i gyngor, a doedden ni erioed wedi cael system chwistrellu dŵr a phanelau solar o'r blaen. Rwyf wedi gofyn cwestiynau am y rhain, ond does neb wedi medru eu hateb mewn gwirionedd. Dylai fod gennych wybodaeth am y pethau hyn yn yr eiddo; dyw'r sylw "ewch ar-lein i gael gwybod" ddim yn ddefnyddiol o gwbl."


"Rhowch wybod i ni pan fydd y warden yn newid... Yn Marychurch Court, cawsom warden newydd o'r enw Gina (sydd wedi bod yn gyfeillgar iawn ac sy'n fodlon sgwrsio â ni) ond mae Gina wedi cael ei symud i rywle arall erbyn hyn. Mae angen mwy o wardeiniaid fel hi arnoch."

## Amrywiol

**Yn y bar hwn (o'r cwestiwn blaenorol), dyma rai o'r sylwadau a wnaed gan un neu ddau gwsmer:**


- "Mae'r rhestr aros yn rhy hir — rydym wedi bod yn y Band Aur am flynyddoedd, yn llythrennol"
- "Adeiladwch fwy o gartrefi"
- "Rwyf am gael mynegi fy marn heb fod mewn grŵp"
- "Parcio"
- "Cymorth gwell i denantiaid"

**6.** Atebwyd gan: 150 Nid atebwyd gan: 86




**Dywedodd 51 o gwsmeriaid y byddent yn ystyried ymwneud yn fwy helaeth ag ateb er mwyn helpu i roi gwybod iddo sut brofiad yw byw yn un o gartrefi ateb. Mae ateb wrthi'n cysylltu â'r 51 o gwsmeriaid hyn ac maent yn cael eu gwahodd i ddigwyddiadau er mwyn rhoi cynnig ar y cyfleoedd hyn i Ymgysylltu.** *Beth am i chi roi cynnig arnynt hefyd?*

**7.** Atebwyd gan: 224 Nid atebwyd gan: 27




## Dyma rai o sylwadau ein cwsmeriaid ynghylch Cwestiwn 8 isod:

"Rwy'n gweithio yn llawn-amser, felly ni fyddwn yn gallu mynychu."

"Mae ateb yn ymdrin â hyn yn dda, yn enwedig gan mai ychydig o leoliadau yn Sir Benfro sy'n darparu ar gyfer anabledd."

"Rydych eisoes yn darparu ar gyfer cynhwysiant. Fi sydd ddim yn hoffi digwyddiadau cymdeithasol."

"..... maent yn aml yn ddigwyddiadau a gynhelir yn ystod y dydd. Rwy'n gweithio, felly alla i ddim mynd iddynt yn ystod oriau gwaith."

"Cael mwy o rybudd am ddigwyddiadau. Ei gwneud yn bosibl i fi gynllunio, gan fy mod yn dioddef o orbryder."

"Mae popeth yn hygyrch i fi, ac mae digwyddiadau rhithiol ar gael hefyd."

"Gwybodaeth sy'n cael ei hanfon at denantiaid ag anableddau — Pa fesurau sydd wedi'u cyflwyno i wneud digwyddiadau'n hygyrch?"


"Yn bersonol, rwy'n credu bod iechyd meddwl pobl, o safbwynt ateb, yn eithaf gwael. Yn bersonol, dydw i ddim yn meddwl eich bod yn trin tenantiaid yn deg. Rwy'n teimlo hefyd nad ydych yn gwrando ar eich tenantiaid oni bai bod gwneud hynny o fudd i chi — rydych yn gwneud fel y mynnoch."

Mae'n well gen i ddigwyddiadau rhithiol oherwydd maent yn fwy hygyrch ac rwy'n fwy tebygol o allu mynychu."

"Ddim wir — rwy'n eithaf prysur oherwydd fy mod yn ofalwr."

"Nac oes, mae digwyddiadau ateb fel rheol yn hygyrch."

"Trefnu rhai lleol"



Atebion a roddwyd gan bobl o'u gwirfodd mewn blychau testun ar gyfer sylwadau agored

# Dyma wnaethom ...

**Ar sail canfyddiadau thema e2i, rydym yn bwriadu cymryd y Camau Gwella canlynol:**

1. Lleoliadau awyr agored — mwy o amrywiaeth o fwyd er mwyn ystyried y math o fwyd y mae pobl yn ei hoffi/yn methu ei oddef
2. Hyrwyddo'r ffaith bod help gyda threfniadau cludiant a chostau cludiant ar gael bob amser ar gyfer digwyddiadau'r fenter Ymgysylltu i Wella (rhaid sicrhau nad yw diffyg cludiant yn atal cyfranogiad) a pharhau i ddarparu cyfleoedd ar-lein
3. Pobl sy'n rhoi gofal/y mae angen gofal arnynt (yn ôl y bobl hyn, doedden nhw ddim yn gallu mynychu oherwydd bod angen gofal arnynt neu bod angen iddyn nhw roi gofal): pwysleisio, ar ddeunydd hyrwyddo, bod ateb yn gallu cynnig cymorth i gwsmeriaid sydd am gymryd rhan.

**Dyma'r themâu y sylwyd arnynt o Gwestiwn 5 ac y bydd ateb yn ystyried ymchwilio'n fwy manwl iddynt yn 2024:**

- **Cyfathrebu**
- **Cynnal a Chadw Tiroedd**
- **Atgyweiriadau**

Os hoffech drafod â'r staff, a chwsmeriaid eraill ateb, y cynnydd sydd wedi'i wneud o safbwynt cyflawni'r camau gwella hyn, mae croeso i chi ddod i'n ***Grŵp Cynllunio Arolygon*** sydd i fod i gwrdd ar 13/02/24, 10:00yb. Cofiwch gadw llygad ar ein gwefan am ddiweddariadau.

## Rydym yn ddiolchgar dros ben i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r adolygiad thematig hwn

*Angen gwybod mwy neu godi mater?*

Anfonwch neges ebost atom: **engage@atebgroup.co.uk**

Ewch i'n gwefan: **www.atebgroup.co.uk**

Ffoniwch ni neu anfonwch neges destun atom: 07500 446611 / / 01437 774766

*Os yw'n bwysig i chi, yna mae'n bwysig i ni*